



Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

Hyder mewn Gofal - Confidence in Care

Egwyddorion Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru



Manylion Cyswllt

Cyngor Gofal Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Ffacs: 029 2038 4764

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@cgymru.org.uk

www.cgymru.org.uk

ISBN: 978-1-909867-88-8

© 2016 Cyngor Gofal Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Beth yw Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)	5
Pam mae DPP yn bwysig?.	7
Manteision DPP:	8
I staff	8
I reolwyr a'r lleoliad	8
Egwyddorion DPP yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant	9
Y Broses DPP:	10
Cyn dysgu	10
Ar ôl dysgu.	11
Adolygu eich DPP	12
Saith cam DPP	13
Atodiad 1 – Enghreifftiau o weithgareddau dysgu	15
Atodiad 2 – Astudiaeth achos	17
Atodiad 3 – Templedi ar gyfer dysgwyr	19
Rhestr termau	22

Cyflwyniad

Yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*¹, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar yr ymagwedd briodol ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru o ran lefelau cymwysterau gofynnol, arweinyddiaeth graddedigion, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a llwybrau gyrfa.

Dymuniad Llywodraeth Cymru yw i'r gweithlu addysg gynnar, gofal plant a chwarae fod yn dra medrus:

- sy'n uchel ei barch (gyrfa o ddewis);
- sy'n deall sut mae plant yn dysgu a datblygu;
- sy'n strwythuro gweithgareddau ac amser i gynorthwyo pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn;
- sy'n ddysgwyr rhagweithiol eu hunain;
- sy'n ddwyieithog.

Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu sgiliau a safonau ymhlith ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn gwella canlyniadau i blant trwy fynediad at ofal ac addysg gynnar o ansawdd uchel.

Mae'r Llywodraeth eisiau cynorthwyo'r gweithlu presennol i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu gyrfaedd a chael mynediad at fwy o gyfleoedd cyflogaeth. Yn gyfnewid am hynny, byddant yn disgwyl i'r rhai hynny sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae fod yn ddysgwyr rhagweithiol eu hunain a gallu dangos y buont yn dilyn rhaglen dysgu, gyda'r cymhelliad i gymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol o ddechrau eu gyrfa drwy gydol eu bywydau gweithio.

Mae gweithio ym maes gofal plant yn ymwneud â chymaint mwy na goruchwylio plant yn unig: er y gallai ymarferwyr weithio gyda phlant a theuluoedd mewn ffordd sy'n ymddangos yn ddiymdrech, er mwyn gwneud hyn yn dda mae angen iddynt fod yn weithwyr proffesiynol hyfforddedig sydd â lefel uchel o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau.²

1 Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

2 Llywodraeth Cymru – Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

Beth yw Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Datblygiad cynlluniedig, parhaus o wybodaeth a sgiliau drwy gydol eich bywyd gweithio i ysgogi a datblygu arfer da a gwasanaethau o ansawdd da yw DPP. Mae'n cyfrannu at ddatblygiad seiliedig ar waith a datblygiad personol o ganlyniad i fyfyrion personol a phroffesiynol, gan alluogi ymarferwyr i gyflawni eu potensial.

Mae DPP yn ymwneud â chymryd camau bwriadol i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion personol y mae eu hangen arnoch i gyflawni eich cyfrifoldebau a'ch dyletswyddau proffesiynol. Ymagwedd gyfannol ydyw at ddysgu sy'n cydnabod profiadau pob dydd fel cyfleoedd dysgu. Yn ei hanfod, mae DPP yn ymwneud â chyflawni proffesiynoldeb ym mhopeth a wnewch; ymrwymiad personol ydyw i ddiweddarau gwybodaeth a sgiliau'n barhaus.

Mae'r broses DPP yn eich helpu i reoli eich datblygiad eich hun yn barhaus. Ei swyddogaeth yw eich helpu i gofnodi'r hyn rydych chi'n ei ddysgu, ei adolygu a myfyrio arno. Nid dogfen blychau ticio ydyw sy'n cofnodi'r hyfforddiant rydych wedi'i gwblhau. Mae'n ehangach na hynny. Gweler rhestr o enghreifftiau o weithgareddau dysgu yn **Atodiad 1**.

Mae DPP yn gwerthfawrogi'r sbectrwm cyfan o brofiadau dysgu, a allai gynnwys datblygiad mewn swydd, a hyfforddiant a chymwysterau ffurfiol, yn ogystal â dysgu anffurfiol a dysgu trwy brofiad.

Cyfrifoldeb ar y cyd yw DPP:

- mae angen i bob ymarferydd, p'un a ydynt yn gweithio'n annibynnol, o fewn sefydliad neu'r tu allan iddo, gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a pharhau i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth;
- mae angen i gyflogwyr gymryd camau pendant i ddarparu cyfleoedd dysgu priodol yn barhaus.

Dyma'r meysydd datblygu allweddol sy'n debygol:

- **gwybodaeth** – caffael a diweddarau gwybodaeth o ran datblygiadau penodol i'r sefydliad ac ymarfer
- **sgiliau** – tystiolaeth o gymhwyso gwybodaeth a defnyddio sgiliau mewn sefyllfaoedd yn y gweithle
- **ymddygiadau** – ymwybyddiaeth a defnydd profiadwy o werthoedd, ymddygiad a sgiliau perthnasoedd priodol mewn sefyllfaoedd yn y gweithle
- **hunanasesu ac ymarfer myfyriol** – adolygu a myfyrio'n barhaus gan ddefnyddio adborth ar weithgareddau dysgu a datblygu. Gellid gwneud hyn yn ystod y broses oruchwylio ac arfarnu. I gael rhagor o arweiniad ar y broses oruchwylio, cyfeiriwch at *Canllaw i oruchwylio ac arfarnu da* www.cgymru.org.uk/goruchwylio-ac-arfarnu-da/



Pam mae DPP yn bwysig?

Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn bwysig oherwydd ei fod yn sicrhau eich bod yn parhau i fod yn gymwys yn eich proffesiwn. Heblaw am ddysgu am rywbeth newydd, mae sawl rheswm i ymgymryd â DPP.

Gall DPP roi gwybodaeth newydd i chi a allai eich helpu i ymdrin â sefyllfaoedd newydd neu gymhleth; fe all eich helpu i gyflawni eich nodau gyrfa trwy ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu, a bydd yn rhoi hyder i chi yn eich rôl ac yn dangos eich ymrwymiad i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth. Bydd DPP hefyd yn cynnal eich cymhelliad a'ch gwybodaeth am arfer da.

Mae DPP i ymarferwyr y tu hwnt i'w cyfnod sefydlu a'u hyfforddiant/cymwysterau cychwynnol yn faes hollbwysig i sefydliadau a'u staff, ac i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd am y rhesymau canlynol:

- galluogi staff i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sector
- datblygu gweithlu cymwysedig a dwyieithog
- parhau i wella safonau yn y sector
- gwerthfawrogi ymarferwyr trwy ddatblygu a chynnal eu cymhwysedd a'u sgiliau
- gwella recriwtio a chadw ymarferwyr
- sicrhau bod y sector yn bodloni gofynion perthnasol
- cynyddu gwybodaeth, profiad a dealltwriaeth, gwella perfformiad a chyfrannu at ddysgu gydol oes

Mae anghenion plant a phobl ifanc yn ganolog i egwyddorion DPP ac yn adlewyrchu saith nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru:

Nod Allweddol 1 - yn cael dechrau teg mewn bywyd

Nod Allweddol 2 - yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu

Nod Allweddol 3 - yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn byw heb gael eu cam-drin, eu herlid na'u hecsbloetio

Nod Allweddol 4 - yn cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol

Nod Allweddol 5 - yn cael gwrandawriad, eu trin â pharch, a chydabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol

Nod Allweddol 6 - yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol

Nod Allweddol 7 - yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi

Manteision DPP

I'r dysgwr:

- Caniatáu i chi ddatblygu a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran sgiliau
- Cynyddu sgiliau a gwybodaeth
- Cynyddu eich hyder a hygredded i sefyll allan
- Eich helpu i gyflawni eich amcanion gyrfa
- Eich helpu i ymdopi'n gadarnhaol â newidiadau drwyn ddiweddarau eich gwybodaeth a'ch sgiliau'n rheolaidd
- Gwella eich canlyniadau.

I'r rheolwr a'r lleoliad:

Mae ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel. Bydd ddatblygu eich staff a chynnal eu cymhelliad bydd y cymwyseddau penodol sy'n ofynnol ar gyfer anghenion sefydliadol yn cael eu bodloni e.e. cynigion am fwy o gymwysterau cymorth cyntaf ar gyfer ymarferwyr ac ati, bydd hyn yn cyfrannu at ansawdd eich darpariaeth.

Mae datblygu diwylliant dysgu angen gweledigaeth, a phrosesau a strwythurau cefnogol, gan rymuso rheolwyr i ddatblygu gweithlu uchel ei gymhelliad ac annog a chynnal dysgu.

Gall DPP:

- wella hyder a ffyddlondeb cwsmeriaid (rhieni a theuluoedd)
- cynyddu cymhwysedd gweithwyr, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd yn y gweithle
- hybu morâl a chymhelliad yn y gweithle
- gwella canlyniadau a darparu arfer sy'n arwain y sector

Egwyddorion DPP yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Mae angen i DPP y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant fod yn gydnaws ag anghenion cyflogwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd. Er mwyn i DPP fod yn llwyddiannus, rhaid i'r sector gael gweledigaeth ar y cyd fydd yn hybu a chefnogi dysgu.

Dylai pob lleoliad sicrhau bod anghenion datblygu eu staff yn cael eu hamlygu a'u hystyried yn rheolaidd, eu cynllunio, eu trosi'n amcanion dysgu, bod adnoddau'n cael eu darparu ar eu cyfer a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae angen i egwyddorion DPP:

- fod wedi'u seilio ar ymarfer myfyriol
- bod yn barhaus
- annog a chefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg a defnydd ohonynt
- adlewyrchu mentrau cyfredol Llywodraeth Cymru
- galluogi mynediad cyfartal at hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- cynyddu trosglwyddoldeb sgiliau ac arbenigedd ar draws y sector
- galluogi ymarferwyr i ddatblygu, arbenigo a/neu gynnal sgiliau
- bod yn ystyrlon i gyflogwyr ac ymarferwyr
- amlygu ac ymgorffori arddull ddysgu unigolyn



Y Broses DPP

Cyn dysgu

I fod yn effeithiol, mae'n bwysig cynllunio'ch DPP a gofyn y cwestiynau canlynol i'ch hun:

- Beth yw fy man cychwyn – beth yw'ch gwybodaeth, sgiliau a phrofiad presennol?
- Sut wyf yn dysgu orau – beth yw fy arddull ddysgu?
- Pa wybodaeth a sgiliau y mae angen i mi eu datblygu?
- Beth y mae angen i mi ei gyflawni a pha wahaniaeth y bydd yn ei wneud?
- Pa ddulliau y gallaf eu defnyddio?
- Pa gymorth y bydd ei angen arnaf?
- Beth yw fy nyddiadau targed?
- Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunaf/y mae eu hangen arnaf?

Mae'r cwestiynau hyn yn ganolog i DPP da. Bydd yr atebion yn rhoi man cychwyn i chi i gynnwys eich gwybodaeth am arferion a safonau proffesiynol cyfredol.

Mae'n bwysig dysgu mewn ffyrdd sy'n gweddu i chi – trwy wneud hynny, byddwch yn fwy tebygol o fwynhau'r profiad a dysgu pethau'n gyflym.

Meddyliwch am yr hyn rydych eisiau ei gyflawni a chofnodwch hynny. Canolbwyntiwch ar gymwyseddau penodol sy'n berthnasol i'ch swydd bresennol a'ch dyheadau ar gyfer y dyfodol. Neilltuwch amser yn eich dyddiadur ac ymgymrwch â'ch gweithgareddau DPP.

Meddyliwch am eich ymarfer (ymarfer myfyriol)

1. Pa ddatblygiad personol a phroffesiynol y gallech gymryd rhan ynddo i gefnogi eich rhyngweithiadau â phlant?
2. Sut ydych chi'n rhyngweithio ag aelodau staff, asiantaethau allanol, a gweithwyr proffesiynol eraill?

Ar ôl dysgu

Cadwch gofnod o'ch gweithgareddau DPP a myfyriwch ar sut yr ydych wedi elwa o bob gweithgarwch – y wybodaeth a gafwyd, y sgiliau a ddatblygwyd a sut maen nhw wedi dylanwadu ar eich agwedd a'ch dulliau. Gall siarad â'ch rheolwr neu fentor eich helpu i wneud hyn y cwestiynau a ofynnant yn eich ysgogi i ystyried eich dysgu'n wrthrychol. Gellid gwneud hyn yn ystod goruchwyliaeth gan gofnodi'r drafodaeth a chytuno camau nesaf.

Mae pobl sy'n myfyrio ar eu dysgu yn cofio mwy o wybodaeth ac yn fwy effeithlon o ran ei chymhwyso i wella eu perfformiad. Mae myfyrio'n arbennig o bwysig os ydych am gael y canlyniadau gorau o weithgareddau datblygu cynlluniedig.

Dyma rai cwestiynau i'w hystyried:

- Beth oedd y pwyntiau allweddol rydych chi'n eu cofio ac a oedd yn berthnasol i chi?
- A aeth y gweithgarwch fel y gynlluniwyd – ac os na, pam?
- Sut gallech chi fod wedi'i wneud yn wahanol neu'n well?
- Sut byddwch chi'n newid yr hyn rydych chi'n ei wneud neu sut rydych chi'n ymddwyn o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn?
- A oedd wedi bodloni eich anghenion?
- Sut oedd y gweithgarwch yn cyd-fynd â'ch arddull ddysgu – a oedd yn briodol i chi neu a ddylech roi cynnig ar rywbeth gwahanol y tro nesaf?
- A ydych chi'n teimlo eich bod wedi dysgu digon, neu a oes mwy yr hoffech ei ddarganfod?
- Pa gamau dilynol y mae angen i chi eu cymryd?
- Sut byddwch chi'n gweithredu'r hyn a ddysgoch yn eich gwaith?

Gall rhannu myfyrdodau ag eraill sydd wedi gwneud yr un gweithgarwch neu weithgarwch tebyg daflu goleuni ar sut mae gwahanol safbwyntiau'n effeithio ar ein dysgu.

Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi DPP wrth i chi fynd ymlaen gan y bydd hynny'n eich helpu i gael y budd mwyaf o unrhyw ddysgu ac yn rhoi'r cyfle i chi fyfyrio'n rheolaidd.

Ceir enghraifft o sut i gadw cofnod o'ch dysgu yn yr astudiaeth achos DPP ymarferydd lefel 3 yn **Atodiad 2**.

Adolygu eich DPP

Proses barhaus yw'r cylch datblygiad proffesiynol, a dim ond trwy adolygu eich DPP y gallwch symud ymlaen i ffurfio cynlluniau addas ar gyfer eich camau nesaf a sicrhau bod eich amcanion parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol.

Mae nifer o fanteision o adolygu eich DPP gan gynnwys:


- Procio'ch cof – bydd adolygu yn eich helpu i gofio pwyntiau allweddol, atgyfnerthu eich dysgu, ac ystyried faint yr ydych wedi'i ddefnyddio yn eich gwaith;
- Eich helpu i gadw at eich cynlluniau – sicrhau eich bod yn cyrraedd eich amcanion ac nad ydych wedi anghofio unrhyw beth;
- Sicrhau bod eich cynllun yn effeithiol – yn parhau, yn briodol ac yn berthnasol i'ch anghenion, a'ch bod yn symud tuag at eich nodau tymor hir;
- Dod i ddeall sut yr ydych yn dysgu – gall adolygu eich gweithgareddau ddangos y dulliau dysgu sydd orau gennych.

Mae'n bwysig adolygu ein DPP yn rheolaidd, ond fe allech ganfod hefyd eich bod eisiau adolygu'ch cynlluniau ar sail ad hoc, er mwyn manteisio ar gyfle annisgwyl o bosibl.



Saith cam DPP

Ffigwr 1: Mae'r diagram isod yn amlygu'r saith cam yn y broses DPP.



Saith cam DPP

Mae'r tabl isod yn amlygu dulliau a gweithgareddau priodol ar gyfer saith cam y broses o gynllunio i weithredu:

Ffigwr 2

Y broses DPP	Dulliau DPP	Enghreifftiau o weithgareddau DPP
Cam 1 Asesu anghenion yr unigolyn a'r sefydliad	Asesu anghenion datblygu yn unol â phroffil yr unigolyn.	Datblygu proffil DPP personol drwy gymharu'r anghenion dysgu a'r cymwyseddau angenrheidiol.
Cam 2 Adnabod anghenion datblygu	Asesu anghenion datblygu yn unol â phroffil yr unigolyn.	Gellir ei wneud mewn sesiwn oruchwylio ac arfarnu neu gall sefydliadau mwy o faint ddefnyddio: <ul style="list-style-type: none"> • diagnosteg, e.e. adborth 360° • meincnodi sgiliau.
Cam 3 Amlygu amcanion, cyfleoedd ac adnoddau dysgu	Amlygu amcanion dysgu.	Amlygu mathau o ddysgu all fodloni'r amcanion: dysgu yn y gwaith, dysgu gweithredol, rhwydweithio, mentora, secondiadau, e-ddysgu, mynychu digwyddiadau, dysgu allanol, dysgu ffurfiol, a rhwydweithio.
Cam 4 Cynllunio cyfleoedd datblygu	Amlygu targedau.	Amlygu cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a allai hwyluso neu lesteirio'r nodau hyn, fel diffyg sgiliau sylfaenol neu fynediad at adnoddau.
Cam 5 Gweithredu cyfleoedd dysgu	Profi gwahanol fathau o ddysgu – rhai a gynlluniwyd a rhai ad hoc.	Cofnod dysgu neu ddyddiadur myfyriol i'r ymarferwyr, ei gwblhau. Fe allai fod yn system gofnodi ar-lein.
Cam 6 Cofnodi canlyniadau	Myfyrion ar ddatblygiad a'i gofnodi.	Cofnod cyflawniad neu gofnod canlyniadau dysgu ymarferol, a wedi ei grynhoi mewn portffolio DPP.
Cam 7 Adolygu, achredu a mireinio dysgu	Adolygu proffil yr unigolyn a chynnwys unrhyw gyfrifoldebau neu rolau ychwanegol. <ul style="list-style-type: none"> • Arfarnu'r hyn a ddysgwyd • Yn ôl i gam 1 	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio goruchwyliaeth i adolygu canlyniadau dysgu yn ymarferol. • Adolygu'r hyn a ddysgwyd yn unol â chymwyseddau wedi'u diweddarau a diweddarau'r proffil DPP. • Achredu DPP trwy gyrff rheoleiddiol a phroffesiynol. • Adolygu a mireinio'r hyn a ddysgwyd mewn timau.

Atodiad 1

Engbreiffiau o weithgareddau dysgu

Cofiwch fod mwy i DPP na gwneud cyrsiau hyfforddi neu gymwysterau yn unig!

Fe allai olygu gwneud rhywfaint o gysgodi gwaith, darllen gwybodaeth mewn llyfr neu ar wefan, neu siarad â chydweithwyr am y ffordd y gwnaethant ymdrin â sefyllfa anodd. Y peth allweddol yw myfyrio ar eich dysgu a meddwl am sut y bydd yn effeithio ar eich swydd neu rôl yn y dyfodol. Nid oes un dull sy'n gweddu i bawb. Lle bynnag yr ydych yn eich gyrfa neu ddysgu, mae eich DPP yn unigol i chi a dylai adlewyrchu eich anghenion dysgu. Gweler rhai engbreiffiau o weithgareddau y gallech eu gwneud isod:

- **Dadansoddi ac arfarnu** – edrych ar eich ymarfer eich hun neu ymarfer pobl eraill yn ddadansoddol ac arfarnu sut y gellid ei wella neu ei wneud yn wahanol a pham
- **Secondiadau** – ffordd wych o archwilio gwahanol bosibiliadau gyrfa heb adael eich swydd bresennol
- **Profiad ymarferol** – dysgu trwy wneud y swydd a chael profiad trwy gysylltiad yn hytrach na damcaniaeth
- **Sefydlu** – gellir defnyddio rhaglen sefydlu dda i asesu eich gwybodaeth a'ch profiad a'ch helpu i amlygu eich anghenion datblygu
- **Arsylwi a gwranddo** – casglu gwybodaeth trwy arsylwi a gwranddo ar bobl eraill; dyma'r sail i sgiliau cyfathrebu o bob math
- **E-ddysgu** – mae dysgu ar-lein yn gost-effeithiol a gellir cael mynediad ato yn unrhyw le ar bob awr o'r dydd a'r nos
- **Cysgodi** – trwy dreulio amser gyda chydweithiwr yn arsylwi sut y mae'n cyflawni tasg benodol e.e. asesu risg mewn perthynas â symud a chario

Rhestrir llawer mwy o enghreifftiau isod:

- Sesiynau briffio, arddangosiadau, cyflwyniadau
- Hyfforddi a mentora
- Cyfrannu at ymgynghoriad a rhoi adborth
- Dirprwyo
- Deialog a thrafod
- Rhyngweithio mewn grŵp
- Dysgu agored ac o bell
- Tiwtorialau unigol a grŵp
- Dysgu seiliedig ar TG
- Adolygu gan gymheiriaid
- Cymhwyso dysgu'n ymarferol
- Holi
- Darllen
- Dysgu myfyriol
- Ymchwil
- Model rôl
- Goruchwyliaeth
- Cyfarfodydd tîm
- Adborth fideo
- Gweithdai a chynadleddau
- Ymweliadau
- Gwirfoddoli
- Datblygiadau yn ymwneud â'r Gymraeg
- Aseiniadau seiliedig ar waith



Atodiad 2

Templedi – cynllunio a chofnodi eich dysgu

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos enghraifft o sut mae taith DPP Jodie, sef ymarferydd meithrin lefel 3, wedi'i chyfleu a sut mae'n cofnodi ei phroses gynllunio a chanlyniadau ei dysgu.

Mae'r feithrinfa y mae Jodie'n gweithio ynddi'n awyddus i wella a datblygu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig defnyddio'r Gymraeg yn y feithrinfa.

Gofynnwyd i Jodie gymryd cyfrifoldeb am arwain y broses o wella'r Gymraeg ar draws holl feysydd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Treuliodd Jodie amser gyda'i goruchwyliwr i archwilio unrhyw feysydd gwybodaeth y gallai fod angen iddi eu datblygu.

Maen nhw'n cwblhau cynllun ar gyfer ei dysgu a'i datblygiad ac yn ei adolygu yn ei sesiwn oruchwylio nesaf.

AWGRYM DA:

Creu nodau CAMPUS:

- Cyflawnadwy
- Amserol
- Mesuradwy
- Penodol
- Uchelgeisiol
- Synhwyrol

Astudiaeth achos

Cynllunio eich dysgu

Pa wybodaeth a sgiliau y mae angen i mi eu datblygu?

Gwybodaeth am feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen, yn enwedig yr iaith Gymraeg.

Beth wyf yn dymuno ei gyflawni / beth mae angen i mi ei gyflawni – pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?

Gwell dealltwriaeth a gwybodaeth a mwy o hyder.

Pa ddulliau y gallwn eu defnyddio?

Dilyn cwrs hyfforddi.
Ymweld â lleoliad arall.
Bod â mentor ac athro ymgynghorol.
Ymarfer.

Pa gymorth y bydd ei angen arnaf?

Amser i ffwrdd i ddilyn hyfforddiant.
Cyllid ar gyfer hyfforddiant.
Mynediad at fentor / Athro Ymgynghorol.

Beth yw fy nyddiadau targed?

1 mis.
Parhaus.

Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunaf / y mae eu hangen arnaf?

Gwell dealltwriaeth o iaith a diwylliant Cymru; bydd hyn yn fy ngwneud yn fwy hyderus wrth fy ngwaith ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn sylweddol, gobeithio.

Cofnodi eich dysgu

Beth wnes i?

Mynychu gweithdy deuddydd ar sgiliau Cymraeg a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol (NDNA).

Cyfarfod â'm mentor a thrafod materion, pryderon a syniadau.

Cyfarfod ag athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Ymweld â lleoliad arall.

Pryd

Rhagfyr / Ionawr.

Dechrau ym mis Ionawr – mae hyn yn barhaus gyda goruchwyliaeth.

Ionawr, gan barhau bob deufis.

Rhagfyr.

Beth ddysgais i?

Sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y dydd gyda chydweithwyr, rhieni a'r plant.

Manteision a gwerth defnyddio'r Gymraeg.

Mwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Sut i weithredu'r Gymraeg ar draws meysydd y cwricwlwm.

Sut i gynllunio ar gyfer y Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

Sut i asesu dysgu'r plant. Pa adnoddau y mae eu hangen arnaf.

Sut i gynnwys y Gymraeg yn yr holl weithgareddau ac arferion dyddiol.

Sut wyf wedi rhoi hyn ar waith?

Rwyf wedi cynyddu fy nefnydd o'r Gymraeg.

Rwyf wedi sicrhau bod y cynllunio'n cynnwys y Gymraeg drwyddo draw.

Rwyf wedi dilyn y cyfarwyddyd a roddwyd gan yr athro ymgynghorol.

Trwy ymweld â lleoliad arall, rwyf wedi gallu myfyrio ar sut y gallaf wella ac addasu'r hyn rydym ni'n ei ddarparu ar hyn o bryd.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud

Rwy'n teimlo'n fwy hyderus, ac mae'r broses o gynllunio'r cwricwlwm yn adlewyrchu'r Gymraeg ar draws yr holl weithgareddau. Mae'r asesiadau plant wedi dangos bod defnydd, gwybodaeth a hyder y plant wedi cynyddu hefyd.

A oes angen i mi ddysgu mwy yn y maes hwn?

Mae angen mwy o ymarfer a hyder arnaf wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a'r cyfle i drafod gyda'm hathro ymgynghorol a'm mentor.

Bydd hyn yn fy helpu i fyfyr ar yr hyn a aeth yn dda a'r hyn yr hoffwn ei wella.

Bydd athro ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen yn parhau i'm cynorthwyo a gweithredu newidiadau.

Atodiad 3

Templed ar gyfer dysgwyr

Cynllunio eich dysgu

Pa wybodaeth a sgiliau y mae angen i mi eu datblygu?

Beth wyf yn dymuno ei gyflawni / beth mae angen i mi ei gyflawni – pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud?

Pa ddulliau y gallwn eu defnyddio?

Pa gymorth y bydd ei angen arnaf?

Beth yw fy nyddiadau targed?

Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r canlyniadau a ddymunaf / y mae eu hangen arnaf?

Templed ar gyfer dysgwyr

Cofnodi eich dysgu

Beth wnes i?

Pryd?

Beth ddysgais i?

Sut wyf wedi rhoi hyn ar waith?

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud?

A oes angen i mi ddysgu mwy yn y maes hwn?

Rhestr termau

Term	Ystyr
Goruchwyliaeth	Proses ddwyffordd, atebol, gynlluniedig ar ffurf cyfarfod a ddylai gefnogi, ysgogi a sicrhau bod pob ymarferydd yn datblygu arfer da.
Hyfforddi	Pan fydd unigolyn yn cynorthwyo dysgwr i gyflawni nod penodol
Mentora	Pan fydd unigolyn mwy profiadol yn helpu i arwain unigolyn llai profiadol a gwybodus
Dadansoddi	Archwilio rhywbeth yn fanwl er mwyn deall a darganfod ei ystyr.
Arfarnu	Pan fydd unigolyn yn amlygu'r hyn a aeth yn dda a'r hyn y gellid ei wella.
Arddulliau dysgu	Prosesu a dysgu gwybodaeth newydd mewn ffyrdd gwahanol gan gymheiriaid
Hunanasesu	Arfarnu eich perfformiad eich hun
Myfyrio	Edrych yn ôl ar rywbeth yr ydych wedi'i wneud a meddwl amdano'n fanylach.